

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Llanfihangel Crucornau i Bandy,
Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder
40 mya a 50 mya) 202-

The A465 Trunk Road
(Llanvihangel Crucorney to Pandy,
Monmouthshire) (40 mph & 50
mph Speed Limits) Order 202-

Gwnaed *** 202-

Made *** 202-

Yn dod i rym *** 202-

Coming into force *** 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Gwent Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanfihangel Crucornau i Bandy, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 202- a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **** 202-.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Llanvihangel Crucorney to Pandy, Monmouthshire) (40 mph & 50 mph Speed Limits) Order 202- and this Order comes into force on **** 202-.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802 (Cy. 175).

(1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802 (W. 175).

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Casnewydd i'r Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);

- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Newport to Shrewsbury trunk road.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanvihangel Crucornau, Wern Gifford a Phandy, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 a 50 mya) 2003(2) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

202-

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

(2) O.S. 2003/349 (Cy. 49).

Restrictions

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Revocation

5. The A465 Trunk Road (Llanvihangel-Crucorney, Werngifford and Pand y, Monmouthshire) (40 mph & 50 mph Speed Limits) Order 2003(2) is revoked.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

202-

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(2) S.I. 2003/349 (W. 49).

ATODLEN 1
Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 330 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford hyd at bwynt 430 o fetrau i'r gogledd o ganol y gyffordd honno.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 50 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 375 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd ag Old Hereford Road, Llanvihangel Crucornau hyd at bwynt 330 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 430 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford hyd at bwynt 46 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd sirol yr R46 i Benishaplwydd.

SCHEDULE 1
40 mph speed limit

The length of the trunk road that extends from a point 330 metres south of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford to a point 430 metres north of the centre of that junction.

SCHEDULE 2
50 mph speed limit

The length of the trunk road that extends from a point 375 metres south of the centre of its junction with Old Hereford Road, Llanvihangel Crucorney to a point 330 metres south of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford.

The length of the trunk road that extends from a point a point 430 metres north of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford to a point 46 metres north of the centre of its junction with the R46 county road to Penishaplwydd.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465
(LLANFIHANGEL CRUCORNAU I BANDY, SIR
FYNWY) (TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A
50 MYA) 202-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig i sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ar gefnffordd yr A465 rhwng Llanfihangel Crucornau a Phandy, Sir Fynwy.

Prif ddiben y Gorchymyn arfaethedig yw dirymu ac amnewid y darpariaethau 40 mya yr awr presennol a dirymu, amnewid ac ymestyn y terfyn cyflymder 50 mya presennol yn Llanfihangel Crucornau ymhellach i'r de i leihau cyflymder cerbydau drwy gyffyrdd Old Hereford Road a Crossways.

Mae'r terfynau cyflymder 40 mya a 50 mya presennol wedi eu gosod yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanfihangel Crucornau, Werngifford a Phandy, Sir Fynwy) (Terfynau Cyflymder 40 a 50 mya) 2003 (O.S. 2003/349 (W.49)) ("Gorchymyn 2003"). Caiff Gorchymyn 2003 ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

**THE A465 TRUNK ROAD (LLANVIHANGEL
CRUCORNEY TO PANDY,
MONMOUTHSHIRE) (40 MPH & 50 MPH
SPEED LIMITS) ORDER 202-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is necessary to ensure the safety of road users on the A465 trunk road between Llanvihangel Crucorney and Pandy, Monmouthshire.

The main purpose of the proposed Order is to revoke and replace the current 40 mph provisions and revoke, replace and extend the existing 50 mph speed limit at Llanvihangel Crucorney further south to reduce the speed of vehicles through the Old Hereford Road and Crossways junctions.

The current 40 mph and 50 mph speed limits are imposed by virtue of the A465 Trunk Road (Llanvihangel-Crucorney, Werngifford and Pandy) (40 mph & 50 mph Speed Limits) Order 2003 (S.I. 2003/349 (W.49)) ("the 2003 Order"). The 2003 Order will be revoked by the proposed Order.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465
(LLANFIHANGEL CRUCORNAU I BANDY, SIR
FYNWY) (TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A
50 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 40 mya a 50 mya ar y darnau o gefnffordd yr A465 a bennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llanfihangel Crucornau, Wern Gifford a Phandy) (Terfynau Cyflymder 40 a 50 mya) 2003 (O.S. 2003/349) (Cy. 49) ("Gorchymyn 2003") yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig a bydd y darnau perthnasol o'r gefnffordd a reoleiddiwyd gan y Gorchymyn hwnnw yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder 40 mya neu 50 mya fel y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn arfaethedig, ac yn rhinwedd y Gorchymyn arfaethedig hwnnw.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn gosod terfyn cyflymder 40 mya a 50 mya ar yr un darnau o'r gefnffordd ag y darperir ar eu cyfer yng Ngorchymyn 2003. Bydd hefyd yn ymestyn y terfyn cyflymder 50 mya a osodwyd yn rhinwedd Gorchymyn 2003.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 25 Mawrth 2021 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu, ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1444955.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau drwy e-bost, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu yn ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 15 Ebrill 2021. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo iddynt. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei gynnal,

**THE A465 TRUNK ROAD (LLANVIHANGEL
CRUCORNEY TO PANDY,
MONMOUTHSHIRE) (40 MPH & 50 MPH
SPEED LIMITS) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 40 mph and 50 mph speed limit on the lengths of the A465 trunk road specified in the Schedules to this Notice.

The A465 Trunk Road (Llanvihangel-Crucorney, Werngifford and Pandey) (40 mph & 50 mph Speed Limits) Order 2003 (S.I. 2003/349 (W. 49) ("the 2003 Order") will be revoked by the proposed Order and the relevant lengths of trunk road regulated by that Order will be subject to a 40 mph or 50 mph speed limit as provided for in, and by virtue of, the proposed Order.

The proposed Order will impose a 40 mph and a 50 mph speed limit on the same extents as provided for in the 2003 Order. It will also extend the 50 mph speed limit imposed by virtue of the 2003 Order.

During a period of 21 days from 25 March 2021 a copy of the proposed Order, plan, Statement of Reasons for making the Order and the Order being revoked can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1444955.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to Transport.OrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 15 April 2021. Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process of consulting we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who

bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

may give them less weight as a result.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 330 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford hyd at bwynt 430 o fetrau i'r gogledd o ganol y gyffordd honno.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 50 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 375 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd ag Old Hereford Road, Llanfihangel Crucornau hyd at bwynt 330 o fetrau i'r de o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 430 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford hyd at bwynt 46 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd sirol yr R46 i Benishaplwydd.

SCHEDULE 1
40 mph speed limit

The length of the trunk road that extends from a point 330 metres south of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford to a point 430 metres north of the centre of that junction.

SCHEDULE 2
50 mph speed limit

The length of the trunk road that extends from a point 375 metres south of the centre of its junction with Old Hereford Road, Llanvihangel Crucorney to a point 330 metres south of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford.

The length of the trunk road that extends from a point a point 430 metres north of the centre of its junction with the unclassified road at Werngifford to a point 46 metres north of the centre of its junction with the R46 county road to Penishaplwydd.